Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Rhentwyr

Ionawr 2025

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Hawliau Rhentwyr[1] (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 11 Medi 2024. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**2.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn nodi fel a ganlyn:

> *"The objective of the Bill is to ensure private renters not only have access to a secure and decent home but that they can exercise their rights to challenge poor treatment and bad practice. Landlords should retain the confidence to repossess their properties where they have good reason to but with suitable safeguards for tenants who may lose their home."*[2]

**3.** Mae teitl hir y Bil yn nodi diben y Bil fel a ganlyn:

> *"… make provision changing the law about rented homes, including provision abolishing fixed term assured tenancies and assured shorthold tenancies; imposing obligations on landlords and others in relation to rented homes and temporary and supported accommodation; and for connected purposes."*[3]

**4.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 14 Ionawr 2025 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 15 Ionawr 2025. Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, roedd y Bil yng nghyfnod yr ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n gysylltiedig â materion datganoledig.

---

[1] Y Bil Hawliau Rhentwyr, fel y'i cyflwynwyd (Bil 8)
[2] Nodiadau Esboniadol i'r Bil Hawliau Rhentwyr, fel y'i cyflwynwyd, paragraff 1
[3] Y Bil Hawliau Rhentwyr, fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1

**6.** Ar 26 Medi 2024, gosododd Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (Ysgrifennydd y Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[4]

**7.** Ym mharagraff 6 o'r Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

> *"Gwahoddwyd Llywodraeth Cymru i estyn y darpariaethau sy'n gymwys i wahaniaethu yn erbyn tenantiaid sy'n cael budd-daliadau, neu sydd â phlant, yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) yn ystod Senedd ddiwethaf y DU, y cyfeirir ato isod fel "y gwaharddiad diwahân". Gweithiodd fy swyddogion i gyda swyddogion Llywodraeth y DU i deilwra'r darpariaethau i Gymru, a gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd ar 30 Ionawr 2024."*[5]

**8.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Methodd y Bil Rhentwyr (Diwygio) â chwblhau ei hynt drwy Senedd y DU cyn iddi gael ei haddoedi ar 24 Mai 2024 a'i diddymu ar 30 Mai 2024.*
>
> *Yn fuan ar ôl yr etholiad cyffredinol, cysylltodd swyddogion Llywodraeth y DU â'm swyddogion i unwaith eto i ofyn a fyddent yn fodlon ar ddyblygu'r darpariaethau yn ymwneud â gwahaniaethu yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) mewn Bil Hawliau Rhentwyr newydd."*[6]

**9.** Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi bod y Bil yn cynnig diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol Cymru – *Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019* a *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*.[7]

**10.** Gwnaethom adrodd ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) ar 10 Mai 2024.[8] Gosodwyd y Memorandwm gerbron y Senedd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James AS (y Gweinidog). Yn dilyn sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog ar 11

---

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Hawliau Rhentwyr, 26 Medi 2024
[5] Memorandwm, paragraff 4
[6] Memorandwm, paragraffau 8 a 9
[7] Memorandwm, paragraff 11
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), Mai 2024

Mawrth 2024[9], penodwyd Prif Weinidog newydd ar 20 Mawrth 2024. Cadwodd y Gweinidog gyfrifoldeb am y Memorandwm fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio. Ymatebodd i'n hadroddiad ar 21 Mehefin 2024[10], ar ôl addoedi'r Senedd ar 24 Mai 2024 a'i diddymu ar 30 Mai 2024.

**11.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai adrodd ar y Memorandwm erbyn 29 Tachwedd 2024.[11] Estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer adrodd wedyn i 10 Ionawr 2025,[12] yn dilyn cais gan y Pwyllgor.[13]

**12.** Mae'r Memorandwm hefyd yn darparu crynodeb o'r Bil ym mharagraff 5:

> *"Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu'r canlynol:*
>
> *a) Diddymu achosion 'troi allan heb fai' adran 21, gan olygu nad oes bygythiad o droi allan mympwyol a chan roi mwy o sicrwydd i denantiaid.*
>
> *b) Cryfhau hawliau ac amddiffyniadau tenantiaid er mwyn herio arferion cosbedigol megis codiadau rhent afresymol a chynigion rhent.*
>
> *c) Rhoi'r hawl i denantiaid ofyn am gael cadw anifail anwes, y mae'n rhaid i landlordiaid ei ystyried ac na allant ei wrthod yn afresymol.*
>
> *d) Cymhwyso Safon Cartrefi Gweddus i'r sector rhentu preifat er mwyn rhoi cartrefi mwy diogel sy'n cynnig gwell gwerth am arian i rentwyr a chael gwared ar gartrefi o ansawdd gwael mewn cymunedau lleol, y mae eu heffaith yn andwyol.*
>
> *e) Creu cronfa ddata ddigidol ar gyfer y sector rhentu preifat er mwyn dwyn ynghyd wybodaeth allweddol ar gyfer landlordiaid, tenantiaid a chynghorau.*

---

[9] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 1 Mawrth 2024
[10] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio, Julie James AS, 21 Mehefin 2024
[11] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Rhentwyr, Hydref 2024
[12] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Rhentwyr, Tachwedd 2024
[13] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 1 Tachwedd 2024

*f) Darparu ar gyfer cyflwyno gwasanaeth ombwdsmon newydd a fydd yn darparu penderfyniadau cyflym, teg, diduedd a rhwymol i denantiaid.*

*g) Ei gwneud hi'n anghyfreithlon i landlordiaid wahaniaethu yn erbyn tenantiaid sy'n cael budd-daliadau neu sydd â phlant wrth ddewis gosod eu heiddo.*

*h) Cryfhau pwerau gorfodi awdurdodau lleol ac ehangu cosbau ariannol, y gall cynghorau gadw'r elw ohonynt a'i ddefnyddio at ddibenion camau gorfodi yn y dyfodol.*

*i) Ehangu gorchmynion ad-dalu rhent yn sylweddol, gan gynnwys eu hymestyn i droseddau newydd, gan wneud uwchlandlordiaid a chyfarwyddwyr cwmnïau yn atebol."*[14]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**13.** Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer y rhain:

- cymal 29(2) a (4) i (10) (Powers of Secretary of State in connection with Chapter 1)
- cymal 42 (Discrimination relating to children or benefits status: Welsh Language)
- cymal 43 (Discrimination relating to children or benefits status: English Language)
- cymal 44 (Amendment of short title of Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019)
- cymal 45 (Amendments of the Renting Homes (Wales) Act 2016 regarding discrimination)
- cymal 46 (Power of Welsh Ministers to protect others)
- cymal 48 (Supplementary)
- cymal 70(3)(b) a (5) (Housing activities under social rented sector scheme)

[14] Memorandwm, paragraff 5

- cymal 102 (Unlicensed HMOs and houses: offences)
- cymal 103 (Service of improvement notices on landlords and licensors)
- cymal 137(1), (3) a (7) (Regulations)
- cymal 138 (Power of Welsh Ministers to make consequential provision)
- cymal 142(3) (Commencement)
- cymal 145(1) a (4) (Transitional provision)
- Atodlen 2, paragraffau 13 a 50 (Amendments relating to Chapter 1 of Part 1)

**14.** Mae Llywodraeth y DU yn darparu gwybodaeth am ei hasesiad o'r darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn Atodiad A i'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil.[15]

**15.** O ran barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan yn y Memorandwm:

> *"At ei gilydd, mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad. Ysgrifennodd Gweinidog Tai Llywodraeth y DU, Matthew Pennycook AS, at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i ofyn iddi geisio cydsyniad y Senedd ar 11 Medi.*
>
> *Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad mewn perthynas â'r mwyafrif o Bennod 4, Rhan 1 Cymalau 42 a 43, ond nid yw'n credu bod angen cydsyniad ar gyfer adrannau newydd 8G ac 8H yn y ddwy ran, gan fod materion ariannol yn swyddogaeth a gadwyd yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai fod angen cydsyniad gan fod dadl y gellid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol o dan y prawf ehangach yn adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o ran materion datganoledig, h.y. tai.*
>
> *Nid yw Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad ar gyfer Cymal 70 mewn perthynas â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i*

[15] Nodiadau Esboniadol i'r Bil Hawliau Rhentwyr, fel y'i cyflwynwyd, Atodiad A a gweler paragraffau 1034 i 1036

*baragraff 10 a pharagraff newydd 7A o Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1996 o ran yr Ombwdsmon Tai, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y newidiadau hyn."*[16]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**16.** Yn y Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

*"Yn fy marn i, byddai ceisio cymhwyso'r darpariaethau gwahaniaethu i Gymru mewn Bil gan Senedd y DU yn fy ngalluogi i gyflawni nod polisi arwahanol yn brydlon, o fewn amserlen llawer byrrach nag a fyddai'n bosibl fel arall pe baem yn ceisio cyflawni'r un nod drwy ddeddfwriaeth yn y Senedd. Disgwylir i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol yn y gwanwyn. Mae gwneud darpariaeth yn y modd hwn felly yn golygu y gall y manteision polisi gael eu cyflwyno yng Nghymru yn gyflymach a heb effeithio ar ein rhaglen ddeddfwriaethol ehangach.*

*Mae'r darpariaethau o ran gwaharddiad diwahân yn dilyn darpariaethau Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr a'r Alban yn fras; fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau pwysig yn y ffordd y cyflawnir y newidiadau yng Nghymru a Lloegr, er enghraifft cymerir camau gorfodi drwy'r gyfraith droseddol yn hytrach na thrwy gosb sifil am dorri'r gwaharddiad diwahân. Mae hyn er mwyn sicrhau cysondeb â deddfwriaeth bresennol Cymru, h.y. Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 y mae troseddau ynddi am godi ffioedd ar denantiaid oni bai eu bod wedi eu caniatáu.*

*Bydd y gwaharddiad yn gymwys i bob contract meddiannaeth yng Nghymru, yn unol â'r egwyddor sy'n sail i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae Deddf 2016 yn cael ei diwygio i wneud telerau sylfaenol newydd i adlewyrchu'r gwaharddiad diwahân.*

*Mae angen dybryd i'r darpariaethau yn y Bil gael effaith ôl-weithredol gan fod angen cymdeithasol brys i'r darpariaethau fod yn gymwys i gontractau meddiannaeth, lesoedd a thelerau*

[16] Memorandwm, paragraffau 31 i 33

*morgais presennol er mwyn i ddeiliaid contractau a darpar ddeiliaid contractau elwa ar y gwaharddiad diwahân. Heb ddarpariaeth o'r fath, gallai'r prif amcan polisi gael ei danseilio a/neu gallai ei fanteision gael eu gohirio am flynyddoedd lawer mewn cysylltiad ag anheddau sy'n ddarostyngedig i delerau o'r fath.*

*Mae'r fantais i ddeiliaid contractau sy'n cael budd-daliadau neu a all gael budd-daliadau neu sydd â phlant neu a all fod â phlant, yn ogystal â'r manteision cymdeithasol sydd ynghlwm wrth y ffaith bod pobl o'r fath yn gallu cael gafael ar dai priodol yn haws ac nad oes rhaid iddynt ddibynnu ar gymorth digartrefedd gan gynghorau lleol, yn drech o lawer na'r anfantais i forgeiseion a landlordiaid o wneud darpariaeth ag effaith ôl-weithredol. Yn ogystal, bydd yn osgoi anghyfiawnder system ddwy haen a fyddai'n gweithredu am flynyddoedd lawer i ddod gyda dim ond deiliaid contractau meddiannaeth newydd yn elwa ar amddiffyniad y gwaharddiad diwahân.*

*Mae'r darpariaethau mewn perthynas â Deddf Tai 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol, ar gyfer eiddo nad ydynt yn fflatiau nac yn ddarostyngedig i drwyddedu HMO neu ddethol, gymryd camau gorfodi yn erbyn y person sydd â rheolaeth o'r eiddo neu'r person sy'n rheoli'r eiddo, neu gyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer peryglon i'r personau hynny. Ar hyn o bryd efallai na fydd bob amser yn bosibl cyflwyno hysbysiadau o'r fath i rai personau penodol sydd â buddiant yn yr eiddo – er enghraifft, uwchlandlordiaid mewn trefniadau rhent-i-rent. Y bwriad yw caniatáu i awdurdodau tai lleol gyflwyno hysbysiadau gwella i'r person sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod camau unioni yn cael eu cymryd mewn cysylltiad â'r perygl. Mewn rhai achosion, efallai mai'r uwchlandlord fydd y person hwn. Mae hyn yn sicrhau y gall awdurdod lleol gymryd camau yn erbyn uwchlandlord os yw'n amlwg mai'r uwchlandlord yw'r person â rheolaeth.*

*Er bod hynny'n gymwys i annedd yn Lloegr, ym marn Llywodraeth Cymru nid yw'r diwygiad i baragraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1996 yn ganlyniadol ar wasanaeth newydd yr ombwdsmon ar gyfer landlordiaid yn y sector rhentu preifat*

> *ond mae'n sylweddol oherwydd ei fod yn gymwys mewn perthynas â nifer o gartrefi yng Nghymru."*[17]

**17.** O ran newidiadau i *Ddeddf Tai 2004*, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi yn y Memorandwm fod ei swyddogion wedi gweithio arnynt gyda Llywodraeth y DU yn ystod taith y Bil Rhentwyr (Diwygio). Ychwanegodd fod y gwelliannau wedi'u cytuno yn Senedd y DU yn y Cyfnod Adrodd, a bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol wedi'i baratoi i'w osod yn y Senedd cyn i Senedd y DU gael ei diddymu.[18]

**18.** O ran goblygiadau ariannol, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan yn y Memorandwm:

> *"Ni nodwyd unrhyw oblygiadau ariannol hyd yma pe bai'r darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru."*[19]

**19.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan y canlynol hefyd:

> *"Yn fy marn i, mae'n briodol cymeradwyo'r darpariaethau yn y Bil hwn gan Senedd y DU gan ei fod yn caniatáu inni wahardd y gwahaniaethu mympwyol hwn yn y sectorau rhentu yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad."*[20]

## Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig

**20.** Ym mis Hydref 2021, rhoddodd Llywodraeth Cymru ei hegwyddorion i'r Pwyllgor ar gyfer defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig.[21]

**21.** Yn ein Hadroddiad Blynyddol 2021/22[22], gwnaethom nodi:

> *"Nodwn ail frawddeg yr egwyddor graidd gyntaf; yn ein barn ni mae'n darparu eithriad cyffredinol i'r frawddeg gyntaf gan ei*

---

[17] Memorandwm, paragraffau 34 i 40
[18] Memorandwm, paragraff 7
[19] Memorandwm, paragraff 41
[20] Memorandwm, paragraff 42
[21] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, 22 Hydref 2021, ymateb i gwestiwn 1 ac Atodiad B: Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU
[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2021/22, Hydref 2022

*bod yn cyfeirio at "amgylchiadau …lle mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol" defnyddio Bil Llywodraeth y DU, heb roi unrhyw gyd-destun o ran y pwy mae'r ymadrodd hwnnw'n berthnasol iddo a phwy felly fyddai'n gwneud y penderfyniad hwnnw. Gellid dadlau ei bod yn tanseilio effaith y frawddeg gyntaf fel egwyddor graidd y mae Llywodraeth Cymru'n seilio ei dull gweithredu arni. Mae ein profiad ni'n awgrymu y defnyddiwyd Biliau Llywodraeth y DU i gyflwyno cyfraith newydd i Gymru mewn meysydd datganoledig yn amlach na'r hyn a nodir yn y rhestr o enghreifftiau a roddir ym mhwynt 3 o'r egwyddorion. At hynny, mae pwynt 4 o'r egwyddorion (sy'n nodi, y "byddai'n annoeth iawn i Lywodraeth Cymru fabwysiadu trefn hunanwadu (self-denying ordinance) mewn amgylchiadau o'r fath" hefyd yn cael yr effaith o danseilio brawddeg gyntaf yr egwyddor graidd gyntaf."*[23]

**22.** Yn ein Hadroddiad Blynyddol 2022/23[24], gwnaethom nodi:

*"Yn ein hadroddiad ar gyfer 2021/22, gwnaethom ddweud nad oeddem wedi cael ein perswadio gan egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau'r DU, a'n bod yn ystyried eu bod yn ddiffygiol. Yng ngoleuni ein profiad yn 2022/23, a amlygwn uchod, nid yw ein barn wedi newid."*[25]

**23.** Ar 4 Rhagfyr 2024, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni (y Cwnsler Cyffredinol), Julie James AS, at y Pwyllgor yn darparu fersiwn wedi'i diweddaru o egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfu mewn meysydd datganoledig.[26] Gwnaethom gyfnewid gohebiaeth â'r Cwnsler Cyffredinol ar yr egwyddorion diwygiedig.[27]

---

[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2021/22, Hydref 2022, paragraff 52
[24] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2022/23, Hydref 2023
[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2022/23, Hydref 2023, paragraff 98
[26] Llythyr gan Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 4 Rhagfyr 2024
[27] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 17 Rhagfyr 2024 a Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 9 Ionawr 2025

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**24.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 21 Hydref 2024.[28] Yn y cyfarfod hwnnw, gwnaethom gytuno i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi tystiolaeth lafar ar y Memorandwm, a chynhaliwyd sesiwn dystiolaeth wedi hynny ar 18 Tachwedd 2024.[29]

**25.** Yn dilyn ymddangosiad Ysgrifennydd y Cabinet gerbron y Pwyllgor, gwnaethom ysgrifennu ati gyda chwestiynau pellach ar 27 Tachwedd 2024.[30] Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar 16 Rhagfyr 2024.[31]

**26.** Yn ystod ein sesiwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024, mewn ymateb i rai cwestiynau a ofynnwyd gennym, gohiriodd ateb[32] tan sesiwn dystiolaeth roedd y Pwyllgor wedi trefnu ei chynnal ar 25 Tachwedd 2024 gyda Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (y Dirprwy Brif Weinidog), a'r Cwnsler Cyffredinol. Cafodd y sesiwn ei gohirio a'i chynnal ar 9 Rhagfyr 2024. Yn ystod y sesiwn honno, gwnaethom ystyried agweddau ar eu portffolios sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys materion yn ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol yn gyffredinol a'r Memorandwm.[33]

### Defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu ar dai yng Nghymru

**27.** Yn ein sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet, gwnaethom nodi bod y Bil yn adlewyrchu llawer o'r darpariaethau yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) a bod swyddogion Llywodraeth y DU wedi cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i ofyn a oeddent yn fodlon dyblygu i bob pwrpas y ddarpariaeth yn ymwneud â gwahaniaethu o fewn y Bil Rhentwyr (Diwygio) mewn Bil Hawliau Rhentwyr newydd.[34] Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet pa rôl fu ganddi yn y penderfyniad i barhau i geisio darpariaeth i Gymru o fewn Bil Llywodraeth y DU. Ymatebodd:

---

[28] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024
[29] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024
[30] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024
[31] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024
[32] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [26, 32, 47, 62, 72 ac 82]
[33] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024
[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024 Cofnod y Trafodion [7]

> *"… the previous Cabinet Secretary was happy to include the provisions in the new Renters' Rights Bill. I agreed that they should continue that work when I was appointed."*[35]

**28.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a roddwyd cyngor iddi, fel rhan o'r broses benderfynu, ynghylch beth fyddai goblygiadau defnyddio Bil Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd i'r Senedd yn hytrach na Bil Llywodraeth y DU sy'n mynd drwy Senedd y DU.[36] Dywedodd wrthym:

> *"… the timescale of how this happened was that, obviously, my predecessor started the process, and after the new UK Government was elected, then I had that role to carry on along this process. There's been no change at all between now and the previous Renters' Rights Bill that was brought, and I think, as I've said, bringing new Senedd legislation forward would have just had an impact on the Government's priorities for the legislative programme, and that has not changed…".*[37]

**29.** Roedd ein cwestiynau hefyd yn ystyried natur y cynigion eu hunain a goblygiadau cyfansoddiadol ehangach dull gweithredu Llywodraeth Cymru. Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd hi'n cytuno bod y Bil yn gwneud newidiadau sy'n bellgyrhaeddol yng Nghymru. Wrth ymateb, dywedodd:

> *"I think it's really important that this Bill comes through, because we know we want to see its policy aims and ambitions achieved, and it will have a real impact, and this is why we're keen to see it come forward."*[38]

**30.** Os derbyniwn fod goblygiadau pellgyrhaeddol i'r newidiadau, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet ai'r Senedd oedd y lle priodol ar gyfer craffu

---

[35] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [8]
[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [48]
[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [51]
[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [41]

deddfwriaethol, gan gynnwys y broses ar gyfer gwneud gwelliannau testunol, yn hytrach na Senedd y DU.[39] Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"…I appreciate where you're coming from, and I appreciate your views on this, and I know that, as I said, the committee has these long-standing views on this particular process. As I say, I think that, in terms of what we all want to see, which is scrutiny of legislation that comes before this place, we all feel very passionately that we have the Senedd here in Wales, that we want to make sure that we're doing the best for the people of Wales, and that means that we are having that opportunity to scrutinise legislation, and, when it's being proposed, that we are able to have Welsh voices in terms of consultation, and I realise that, in this process, there hasn't been that level of consultation."*[40]

**31.** Ychwanegodd:

> *"I just don't think this Bill does anything like ride roughshod over what we want to do here in Wales. It doesn't change our commitment to that or change our commitment to improving the accessibility of Welsh law. I think we need to be clear about that."*[41]

**32.** Yn ein sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 9 Rhagfyr 2024, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Bod y Bil Hawliau Rhentwyr yn diwygio dwy Ddeddf y Senedd a basiwyd yn ddiweddar mewn meysydd tai sydd wedi'u datganoli i Gymru.
- Bod y Bil Hawliau Rhentwyr yn cynnwys darpariaethau dwyieithog a gafodd eu cynnwys gyntaf yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) a fethodd ym mis Mai 2024.[42]

---

[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [42]
[40] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [43]
[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [45]
[42] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [134]

**33.** Gwnaethom ofyn i’r Cwnsler Cyffredinol pam roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnwys y darpariaethau hyn ym Mil Llywodraeth y DU yn hytrach na chyflwyno Bil Llywodraeth Cymru i’r Senedd, o ystyried bod y darpariaethau eisoes wedi’u drafftio.[43] Wrth ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *“I think you had quite a long session, as a committee, with the Cabinet Secretary in charge of this area, and I haven't had a chance to review that session, so forgive me if I'm repeating myself here, but that's exactly the principle. We have a UK Bill that's doing something that isn't currently in our legislative programme, and we think that that action taken by the UK Government is of much benefit to the people of Wales, to renters in Wales. We don't currently have a legislative vehicle capable of having that added to it. It would be out of scope for any of the legislative vehicles we currently have on the stocks. And rather than have renters in Wales have less protection because we aren't able to do that at this point in time—we could do it in the future, but we aren't able to do it at this point in time—the Government has made an assessment that it's better to take the powers inside the UK Bill than it is to leave the people of Wales without that protection. That's not something we do lightly. We'd rather do it here, but sometimes you have to think that the people of Wales would be not protected in that way for 18 months or so, where they could have been protected immediately. It doesn't preclude us from doing a Bill in the future that consolidates that or puts other proposals in place. It doesn't take away anything from our power to change it, but it does mean that those protections will extend to renters in Wales immediately, and I think that's an outcome worth having.”*[44]

**34.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym hefyd fod defnyddio Bil Llywodraeth y DU yn gyfleus, gan ychwanegu:

> *“We don’t have a legislative vehicle in place to get those reforms in place fast enough, and it seemed to us that, on balance, it was a shame that the Senedd wouldn’t have the*

[43] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [134]
[44] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [135]

*opportunity to scrutinise that in the way that we would have preferred, but it was better for the people of Wales to have those reforms in place than not, and that is always the balance that the Government has to take into account."*[45]

## Gwahaniaethau yn y darpariaethau mewn meysydd datganoledig rhwng y Bil Rhentwyr (Diwygio) a'r Bil Hawliau Rhentwyr

**35.** O ran y darpariaethau Cymreig yn y Bil, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet fanylu ar sut y maent wedi newid o'r Bil Rhentwyr (Diwygio) ac esbonio sut y nodwyd y newidiadau hynny. Darparodd Ysgrifennydd y Cabinet yr wybodaeth ganlynol:

*"Byddaf, er hwylustod, yn cyfeirio at y Bil Rhentwyr (Diwygio) fel y "Bil Diwygio", a'r Bil Hawliau Rhentwyr fel y "Bil Hawliau".*

- *Yn y Bil Diwygio, roedd y gwaharddiad cyffredinol yn welliant a wnaed yng ngham y Pwyllgor. Cafodd darpariaethau'r gwaharddiad cyffredinol eu gwneud ar gyfer Lloegr ar yr un pryd. Cynigiwyd gwelliannau pellach yn y Cyfnod Adrodd.*

- *Gwnaeth y darpariaethau yn y Bil Hawliau adeg ei gyflwyno grynhoi'r gwelliannau a wnaed yng nghamau'r Pwyllgor ac Adrodd.*

*Mae'r dadansoddiad hwn yn cymharu'r gwahaniaethau rhwng y gwaharddiad cyffredinol fel y'i diwygiwyd yng ngham y Pwyllgor yn y Bil Diwygio a'r darpariaethau gwahaniaethu yn y Bil Hawliau adeg ei gyflwyno:*

- *Yn y Bil Diwygio, mewnosodwyd adrannau newydd 8A-8K yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 yn Saesneg a Chymraeg gan gymalau 37 a 38. Mae'r Bil Hawliau yn cynnwys adrannau 8A-8J newydd a fewnosodwyd gan gymalau 42 a 43. Mae pŵer Gweinidogion Cymru i ddiogelu eraill (8J) wedi cael ei symud allan o'r gwelliannau i Ddeddf 2019, gan fod angen*

[45] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [10]

*iddo hefyd fod yn gymwys i Ddeddf 2016. Y mae felly bellach ym mhrif ran y Bil.*

- *Mae cymal 46 o'r Bil Hawliau wedi newid (Pŵer Gweinidogion Cymru i ddiogelu eraill) o hen adran 8J y Bil Diwygio (pŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio Rhan 2A). Mae Adran 8J yn y Bil Diwygio yn rhoi'r pŵer i wneud darpariaeth, mewn perthynas â phersonau o ddisgrifiad arall, sy'n cyfateb, gydag addasiadau neu hebddynt, i'r ddarpariaeth a wneir gan Ran 2A mewn perthynas â phersonau a fyddai â phlentyn yn byw gyda hwy /ymweld â hwy neu bersonau sy'n hawlyddion budd-daliadau. Yn y Bil Hawliau, mae'r ddarpariaeth hon wedi'i hehangu'n fawr. Mae'r cysyniad o 'arfer rhentu gwahaniaethol' (fel y'i diffinnir) mewn perthynas ag anheddau a allai fod yn destun contractau meddiannaeth ac oherwydd yr arfer rhentu gwahaniaethol hwnnw, mae dioddefwyr (fel y'u diffinnir) o'r arfer yn sylweddol llai tebygol o gael, adnewyddu, neu gadw contract meddiannaeth na phobl eraill a gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwahardd yr arfer rhentu gwahaniaethol hwnnw. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r gofyn am ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau gyda'r personau hynny yn is-adran (6)(a) i (f) fel y gwel Gweinidogion Cymru yn dda.*

- *Mae pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i amddiffyn eraill (cymal 47 o'r Bil Hawliau) hefyd wedi'i gynnwys.*

- *Mae'r pŵer yng nghymal 48 o'r Bil Hawliau ynghylch Rheoliadau hefyd wedi'i ychwanegu.*

- *Bu rhywfaint o symud o ran darpariaethau cefn y Bil hefyd, megis ail-drefnu darpariaethau. Mae'r ddarpariaeth cychwyn wedi'i symleiddio ond mae'r pŵer i Weinidogion Cymru ddechrau Pennod 4 o Ran 1 yn parhau.*

- *Gwahaniaeth mawr arall rhwng y Biliau (er nad oes effaith ar Gymru) yw bod darpariaethau gwahaniaethu yr Alban hefyd wedi'u cynnwys yn y Bil Hawliau."*[46]

## Amser sydd ar gael i ddeddfu

**36.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi yn y Memorandwm y byddai defnyddio Bil Llywodraeth y DU yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflawni nod polisi arwahanol o fewn:

> *"… amserlen llawer byrrach nag a fyddai'n bosibl fel arall pe baem yn ceisio cyflawni'r un nod drwy ddeddfwriaeth yn y Senedd."*[47]

**37.** Gwnaethom nodi bod yr un geiriad wedi'i ddefnyddio yn y Memorandwm ar gyfer y Bil Rhentwyr (Diwygio) (a osodwyd ym mis Ionawr 2024[48]) a gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio sut bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn honno, o ystyried bod y Memorandwm i'r Bil Rhentwyr (Diwygio) wedi'i osod dros flwyddyn yn ôl.[49] Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Practically, we cannot deliver within the time frame of this Bill without making sacrifices elsewhere. (…) I don't want to make tenants who are being discriminated against wait for a legislative time slot, which may be, potentially, years down the line, nor do I want to jeopardise the important piece of legislation that we're looking to deliver in our term of Government."*[50]

**38.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a allai Bil Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023 fod wedi cael Cydsyniad Brenhinol cyn diwedd 2024. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

[46] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ymateb i gwestiwn 9
[47] Memorandwm, paragraff 34
[48] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Rhentwyr (Diwygio), 30 Ionawr 2024 (gweler paragraff 31)
[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [10 i 12]
[50] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [13]

> *"Bringing any additional legislation would inevitably have an impact on other areas of delivery. That includes existing legislative time to deliver other legislative programme ambitions."*[51]

**39.** Mewn ymateb i'r un cwestiwn ynghylch a fyddai Bil Llywodraeth Cymru yn agos at gael Cydsyniad Brenhinol pe bai wedi'i gyflwyno i'r Senedd ym mis Tachwedd 2023, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> *"No, because the original Bill we were having really serious problems with, actually, and I'm afraid we didn't agree with many of the provisions in the previous Bill. It fell when the general election was called. But actually, we were wrestling with various bits of that. I'm not sure we would have wanted to go along with some of it. This is a resurrected but slightly different Bill that we do have more in common with, if you like. It matches our policy aims better than the previous situation. So, I don't think it's as simple as saying that.*
>
> *And again, just upfront, we don't have all of the good ideas here in Wales. So, there were Bills in the last two Senedds that might have been able to do some of that, but actually it wasn't part of our policy platform at the time. We don't have all of the good ideas. None of our stakeholders raised it in Wales, and we didn't include it in the Bills. I'm not suggesting for one minute that we couldn't have, but we didn't. It's now been raised as a good idea in the UK and we thought, 'That is a good idea.' Absolutely, we didn't have that good idea here and neither did any of our stakeholders raise it. But, now that it has been raised, we think that the people of Wales ought to have that protection, and therefore we think it's a good idea to take the opportunity of that Bill.*
>
> *We always strive to make sure that, in doing that, we are not in any way curtailing our powers. We could change it afterwards, we could include it in a consolidation Bill, we could include it in a larger Bill that consolidated it in some other way. We strive to*

[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [15]

> *make sure that it isn't constraining in any way when we do that. And that's not just for that Bill, but more generally. So, in taking those powers, we are not taking away any future Government's ability to change it."*[52]

**40.** Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"Absolutely. There's nothing that stops us returning to this in future—legislative time allowing, priorities allowing as well."*[53]

**41.** Yn ein llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet ar 27 Tachwedd 2024, gwnaethom nodi bod llawlyfr deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod Bil fel arfer yn cymryd rhwng chwech ac wyth mis i fynd drwy'r Senedd.[54] Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yr amserlen hon yn gywir, a gwnaeth hi gytuno.[55]

**42.** Gwnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd hi'n rhagweld y byddai unrhyw newidiadau pellach yn cael eu gwneud i'r Bil a fyddai angen cydsyniad, ac a oedd hi wedi gofyn i Lywodraeth Cymru neu wedi cysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw faterion eraill yr oedd Llywodraeth Cymru'n dymuno eu cynnwys yn y Bil a fyddai'n effeithio ar Gymru. Ymatebodd drwy ddweud y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, gan nodi:

> *"Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth y DU wedi cysylltu â mi ynglŷn â gwneud gwelliannau eraill i'r Bil a allai fod angen cydsyniad deddfwriaethol."*[56]

## Capasiti o fewn adran Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru i gynnig deddfwriaeth i'w chyflwyno i'r Senedd

**43.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd diffyg cyfreithwyr neu ddiffyg capasiti yn Llywodraeth Cymru i ddeddfu ar faterion tai. Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

[52] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [137 i 139]
[53] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [140]
[54] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, cwestiwn 3
[55] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ymateb i gwestiwn 3
[56] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ymateb i gwestiwn 10

> *"… I note the committee's long-standing views on this as well, because it's not specific to this Bill that you've talked about it. But, coming into post, obviously, with that short space of time and with a new First Minister, we've got those priorities of the new First Minister to deliver in that short space of time. So, I would say that, at this point, there's obviously a time constraint from focusing on what the First Minister's priorities are for the rest of this Government term and that does have that impact in terms of time.*
>
> *Again, I said, policy wise, this has just been a vehicle that we're able to use to do something that we really wanted to do anyway, and I think it's important to recognise that—"*[57]

**44.** Yng ngoleuni'r ymateb hwn, gwnaethom ofyn a oedd tai yn un o flaenoriaethau'r Prif Weinidog. Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"… it is definitely one of the First Minister's priorities, and, obviously, we've got some legislation coming forward next year, so we'll be bringing that forward. But I can absolutely tell you that housing is a priority of the First Minister's, but there's a limit to how much of that—. And my Cabinet colleagues will all have different views, I'm sure, around what their priorities are, but the First Minister is quite clear on that."*[58]

**45.** Gwnaethom nodi nad oedd y polisi hwn wedi'i gynllunio ac nad oedd unrhyw waith polisi wedi'i wneud, a gwnaethom awgrymu mai'r dull gweithredu oedd neidio ar drol San Steffan.[59] Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"This is something that we wanted to achieve. We've done some wider work on that. In the discussions that have been had with my predecessor, it was quite clear that this was something we would want to achieve in those discussions, and obviously this means that we're able to do something that we want to see*

---

[57] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [53]
[58] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [55]
[59] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [59]

> *happen here in Wales. We don't want people in Wales to be at a disadvantage from what is being proposed in England, and this is an opportunity for us to do that and to do the other things in our legislative programme that we really need to get done."*[60]

**46.** Yng ngoleuni'r ymateb hwn, gwnaethom holi Ysgrifennydd y Cabinet am oblygiadau cyfansoddiadol y dull hwn, yn enwedig o ran atebolrwydd democrataidd.[61] Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet gan ddweud:

> *"Again, I hear what you're saying. Genuinely, in terms of this Bill, I think this is an opportunity for us. We've got wider legislation. We've legislated in this area in terms of housing and I think it is important. Obviously, it's crucial that we do that where we need to do that. And we've got our own real ambitions. This piece of legislation at a UK level fits in very nicely, very much with what we want to see here in Wales, and I think that's something that we've got to be clear on. The wider points that you've made, I do take those, and I think, again, that'll be something that you could raise directly in your deliberations next week."*[62]

**47.** Ychwanegodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Just quickly, I think it's worth just reiterating that what's outlined in the LCM in terms of this consent motion is about, you know, the Bill will amend the Renting Homes (Wales) Act 2016, so it will specifically amend a distinct piece of Welsh legislation. Yes, it's using a UK Government vehicle to amend Welsh legislation, but we've been engaging with UK Government officials to ensure that it reflects Ministers' policy priorities as well."*[63]

---

[60] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [60]
[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [61]
[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [62]
[63] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [63]

**48.** Gwnaethom awgrymu i Ysgrifennydd y Cabinet nad yw'r swyddogaeth tai, mewn termau deddfwriaethol, yn gweithio mewn gwirionedd.[64] Anghytunodd Ysgrifennydd y Cabinet, gan ychwanegu eu bod yn gweld hyn fel cyfle i sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil hwn yn cael eu defnyddio yn y modd gorau posibl er lles pobl Cymru, ac mai dyma'r cyfrwng sy'n bodoli er mwyn iddynt wneud hynny cyn gynted â phosibl.[65]

**49.** Mewn ymateb i bryderon a godwyd gennym ynghylch a oes gan yr adran tai yn Llywodraeth Cymru yr adnoddau a'r swyddogaethau i gyflwyno deddfwriaeth i Gymru i'r Senedd,[66] a hefyd a fyddai hi'n barod i ailystyried ei phenderfyniad a chyflwyno Bil i'r Senedd yn lle hynny,[67] dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"You've raised some of the issues around the pressures on the housing department. We do have two big Bills coming before us. They are really challenging Bills, and they'll be coming next year. We have the building safety Bill and we have the homelessness Bill. They are not insubstantial in what we want to achieve. And I think, within this, we have to be clear about where we are within the legislative timetable. We have to look at the First Minister's priorities and the Government's priorities. This is an important part of what we would like to deliver, and that is why we see this as an opportunity. Please don't think that I would think, 'Why can't we just take the easy option?', because I don't see it in that way. I just think we need to achieve what we would like to achieve, and there's an opportunity. It's important that we do not disadvantage Welsh people within the timetable that we would be able to deliver on.*
>
> *So, just to be clear, I don't think that we haven't got a substantial amount of work to do, and we've got challenges within our department in that sense. I see this as something that we would like to deliver; this is an opportunity. There aren't*

[64] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [21]
[65] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [24]
[66] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [79]
[67] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [80]

> *really any differences—it's not something that will be different to people in England that's different to people in Wales and Scotland. This piece of legislation that we're looking to go on the back of is actually something that would be beneficial and the same situation for the whole of the UK, rather than just England, for example."*[68]

**50.** Yn ein llythyr dilynol ar 27 Tachwedd 2024, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet pam ei bod yn ymddangos bod adnoddau'n broblem i Lywodraeth Cymru ac yn ei hatal rhag cyflwyno ei Bil ei hun i'r Senedd, o ystyried bod darpariaethau'r Bil eisoes wedi'u drafftio'n ddwyieithog. Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Nid adnoddau oedd y broblem, ond y potensial o effeithio ar y blaenoriaethau deddfwriaethol presennol."*[69]

## Defnyddio proses ddeddfwriaethol gyflym yn y Senedd

**51.** Pan wnaethom ofyn a fu unrhyw sgyrsiau yn Llywodraeth Cymru ynghylch defnyddio proses ddeddfwriaethol gyflym yn y Senedd,[70] dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Well, you've raised this in the past, but whether or not this Bill is suitable for an expedited process, I think, now is a moot point, really. I think it's really important that we deliver on the remaining aspects of the programme for government here in Wales."*[71]

**52.** Pan wnaethom sylwi nad oedd y ddeddfwriaeth hon yn y rhaglen llywodraethu, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Well, no, for what we want to do in the rest of our programme for government. We've got legislation coming in—important legislation—within the next 18 months. I keep saying 18 months,*

[68] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [83 i 84]
[69] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ymateb i gwestiwn 1
[70] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [27]
[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [28]

*but it's probably less than that now. I think we're reducing that quickly. But we have a really tight timescale, and I think, with this, for me, there is an avenue for scrutiny, there has been an avenue for scrutiny, and I think it's really important that we're mindful of that".*[72]

**53.** Pan bwyswyd arni ar ddefnyddio proses ddeddfwriaethol gyflym yn y Senedd i gyflwyno Bil Llywodraeth Cymru ar y materion hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"On the specific Bill, I don't think, in my time, that that has happened, because this has been ready to go …".*[73]

**54.** Gwnaethom godi'r pwynt hwn eto yn ein llythyr ar 27 Tachwedd 2024, gan nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud wrthym ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio):

*"Yn ôl yr amlinelliad yn llawlyfr deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ynghylch pa ffactorau sy'n cael eu hystyried ar gyfer Bil brys neu Fil ar lwybr carlam, nid ydym yn credu y byddai hyn yn bodloni'r meini prawf. Ond dwi'n reit hapus i ymchwilio i hyn."*[74]

**55.** Gwnaethom ofyn felly i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd hi wedi ystyried cyflwyno Bil i'r Senedd a cheisio proses gyflym yn hytrach na mynd ar drywydd darpariaethau yn y Bil Hawliau Rhentwyr ac, yn unol â hynny, a fyddai hi'n darparu manylion y gwaith archwilio, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth â'r Pwyllgor Busnes, a pham y dewisodd beidio â dilyn y llwybr hwn yn y pen draw. Wrth ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"Fe wnaethon ni ystyried cyflwyno Bil ar wahân ar gyfer cyflwyno'r darpariaethau hyn, ond roedd yn amlwg y byddai cyflwyno unrhyw Fil heb ei drefnu wedi golygu gorfod aberthu meysydd eraill gan effeithio ar gyflawni mewn mannau eraill. Er na chyhoeddwyd unrhyw ohebiaeth, roedd yn amlwg y byddai cefnogi Bil y DU yn galluogi'r diwygiadau pwysig hyn i*

---

[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [30]
[73] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [32]
[74] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion [14]

> *fynd rhagddynt, a dod â manteision i bobl Cymru, tra'n cynnal gwaith deddfwriaethol allweddol arall."*[75]

## Ymgysylltu â Llywodraeth y DU a chraffu ar y Bil yn San Steffan

**56.** Ym mis Tachwedd 2023, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, Mick Antoniw AS, wrthym:

> *"Er bod sefyllfaoedd lle mae swyddogion a chyfreithwyr Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar addasrwydd testun ym miliau'r DU, nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygiadau na darpariaethau drafft i'w cynnwys ym Miliau'r DU."*[76]

**57.** Felly, gwnaethom geisio archwilio sut y paratowyd y darpariaethau yn y Bil a'r cyfraniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth gynnig y testun, yn enwedig o ystyried bod y darpariaethau'n diwygio dwy Ddeddf a basiwyd gan y Senedd (a ddrafftiwyd fel Biliau i'w cyflwyno gan Lywodraeth Cymru).[77]

**58.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"I'm aware of this process, coming new to this. The UK Government drafting lawyers do liaise with Welsh Government drafting lawyers, so that any of the drafting can be reviewed."*[78]

**59.** Gan gydnabod mai Llywodraeth y DU a ddrafftiodd y darpariaethau yn y Bil a ddiwygiodd ddwy Ddeddf y Senedd, gwnaethom ofyn a allai Llywodraeth Cymru ddychwelyd gyda gwelliannau neu newidiadau i'r drafftiau hynny, yn hytrach na thrafod y darpariaethau mewn termau cyffredinol yn unig. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

[75] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ateb i gwestiwn 2
[76] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, 7 Tachwedd 2023
[77] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [64 i 66]
[78] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [67]

> *"My understanding was that wasn't needed this time, but I don't know if you—. Obviously, I've come into this at the end of the process, rather than at the start."*[79]

**60.** Ychwanegodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"The way it's worked is we've worked with policy officials to form the policy that we want to see and how it would work for Wales. The UK Government drafting lawyers have put together drafts based on those policy instructions and have sent them to us, and we've had our lawyers to look over them to make sure that they work for Wales. That's basically the way that it works. Yes, when we've picked up things that don't quite work, we've gone back to them and told them that, and in a lot of cases we've had things amended."*[80]

**61.** Yna, gwnaethom ofyn a oes cyfle i'r Senedd fod yn rhan o'r broses ac, yn benodol, i ddeall, yn gynharach yn y broses, safbwynt Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi Aelodau o'r Senedd i geisio dylanwadu arno. Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Again, I think there might be an opportunity to discuss that wider next week, but in terms of where we are, there will be statutory instruments, obviously, that we will have, and the Senedd more widely will have, a view on. So, there are those opportunities, but you're asking more about an early stage, which I do understand, and I think that would be something perhaps to explore next week in particular."*[81]

**62.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Just to be clear, I'm not trying to come here and say, 'You need to speak to somebody else about the policy area.' There are wider questions here that I'm happy to give my views on, but I*

---

[79] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [69]
[80] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [70]
[81] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [72]

> *think it would sit better in the discussions that you'll have next time. So, I just want to be clear that that's where I am."*[82]

**63.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd ganddi unrhyw bryderon am fewnbwn Cymru yn Senedd y DU o ystyried nad oedd unrhyw Aelodau Seneddol o Gymru ar Bwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin a oedd yn ystyried y Bil,[83] ac ychydig o dystiolaeth o Gymru a gyflwynwyd i ymgynghoriad y pwyllgor hwnnw.

**64.** Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"That's a really important point. I know that there's been limited involvement of Welsh representatives on this, but I am confident the clauses work for Wales. As I said earlier, there's nothing dissimilar between Wales, Scotland and England in terms of the issues. We know those discriminatory practices happen. As I said, I don't think there's a distinct Welsh element to this. Many charities and stakeholders work across Wales and England, for example, or the UK. I know that those organisations that have given evidence in those scrutiny sessions include Crisis, the National Residential Landlords Association and Generation Rent, and they're already represented as well here in Wales. So I don't believe that there's any concern that scrutiny has been missed out on in Wales."*[84]

**65.** Gwnaethom nodi bod gwahaniaethau rhwng darpariaethau'r Bil ar gyfer Cymru, o gymharu â Lloegr.[85] Esboniodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet y sefyllfa gan ddweud:

> *"The only real difference is in enforcement. It's basically civil penalties in England and criminal penalties in Scotland and Wales."*

a

---

[82] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [82]
[83] Roedd Carolyn Harris AS yn Gadeirydd y Pwyllgor, a chadeiriodd y cyfarfod ar 31 Hydref 2024
[84] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [101]
[85] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [101]

> *"We don't have civil penalties here in Wales in terms of housing. That was the way the UK Government went, I think, from the 2016 Act. Housing law has been a criminal law since the Housing (Wales) Act 2014 and the Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019, so everything has followed that."*[86]

**66.** Gwnaethom ofyn, yn ein llythyr ar 27 Tachwedd 2024, pa effaith y byddai cyfranogiad cyfyngedig cynrychiolwyr Cymru yn ei chael ar graffu ar ddarpariaethau'r Bil yn Senedd y DU fel y maent yn gymwys i faterion datganoledig yng Nghymru.[87] Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Fel yr amlinellais yn fy nhystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, mae llawer o randdeiliaid sydd hefyd yn cynrychioli buddiannau tenantiaid, landlordiaid ac asiantau yng Nghymru, yn ogystal â Lloegr, wedi rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Mesur Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin. Efallai nad oes gan yr NRLA a Generation Rent, er enghraifft, brif swyddfa yng Nghymru, ond yn sicr maent yn cynrychioli buddiannau landlordiaid a thenantiaid yng Nghymru."*[88]

## Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid yng Nghymru

**67.** Pan wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru, dywedodd wrthym:

> *"As I said, my officials have briefed all stakeholders on the proposed changes, including all the representatives, from landlords, agents, tenants, as well as local authorities, and we understand that all, generally, are supportive of the clauses. While we haven't consulted on the changes, I'd just stress that the changes and the concerns being addressed by the Bill are not new. This is something that we know has been happening for a long time, not just in Wales, but across the UK in terms of discrimination. As I said, some stakeholders are already involved in England and Wales—like I said, Crisis, for example, who I know have given evidence, and they work on that basis.*

---

[86] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [104 i 106]
[87] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, cwestiwn 5
[88] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ymateb i gwestiwn 5

*But there's nothing that would've stopped any Welsh organisation from taking part in that as well, or responding."*[89]

**68.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a allai esbonio pam y gwnaed y penderfyniad i friffio rhanddeiliaid am y Bil yn hytrach nag ymgynghori â nhw. Gwnaethom ofyn ar ba ffurf oedd y briffio hwn, ac a fyddai hi'n ymrwymo i gyhoeddi unrhyw ddeunydd briffio neu ohebiaeth sy'n deillio o'r briff.[90]

**69.** Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"Cafodd y rhanddeiliaid eu briffio ar lafar mewn amrywiaeth o gyfarfodydd pan wnaed y gwelliannau i ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru. Nid sesiynau briffio unffordd mohonynt, ond yn hytrach ymgysylltu anffurfiol, lle gwnaethon ni ofyn am adborth. Roedd sefydliadau tenantiaid yn llwyr gefnogol i'r darpariaethau. Roedd cynrychiolwyr landlordiaid ac asiantau hefyd yn gefnogol, ond yn poeni a fyddai digon o amser i baratoi ar gyfer eu cyflwyno. Ar y pwynt hwn, gwnaethom ofyn am roi pwerau cychwyn ar wahân ar gyfer y gwaharddiad cyffredinol i Weinidogion Cymru, er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ac i sicrhau y gellid cynllunio ei weithredu a'i amseru.*

*O ystyried yr amserlenni tynn, roedd y cyfarfodydd hyn yn anffurfiol, ac o'r herwydd ni chyhoeddwyd deunyddiau briffio ysgrifenedig na gohebiaeth."*[91]

## Goblygiadau ariannol ac effeithiau eraill

**70.** Nodwn fod y Memorandwm yn dweud na nodwyd "unrhyw oblygiadau ariannol hyd yma pe bai'r darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru". Fodd bynnag, bydd angen i landlordiaid gyfarwyddo cynghorwyr cyfreithiol i sicrhau bod yr holl ddogfennau gan gynnwys datganiadau ysgrifenedig yn cael eu diweddaru ochr yn ochr â'r contractau meddiannaeth. Gwnaethom ofyn felly i Ysgrifennydd y Cabinet a yw hi wedi asesu'r gost bosibl hon ar landlordiaid, neu a oes mesurau wedi'u rhoi ar waith sy'n golygu na fydd yn rhaid i landlordiaid newid

[89] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 108
[90] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, cwestiwn 4
[91] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ymateb i gwestiwn 4

unrhyw beth i gyd-fynd â’r newidiadau cyfreithiol hyn. Gwnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a fyddai’n cyhoeddi’r asesiad perthnasol.[92] Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *“Nid yw'r gofyniad ar landlord i roi gwybod i ddeiliaid contractau am newidiadau i gontractau yn ofyniad newydd oherwydd y gwaharddiad. Mae'n un o ofynion Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.*
>
> *Rydym eisoes wedi cynnwys asesiad o fewn yr LCM a gyhoeddwyd nad oes unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u nodi.”*[93]

**71.** Wrth nodi y bydd y newidiadau a gyflwynwyd gan y gwelliannau i gyfraith tai Cymru yn newid y telerau sylfaenol sy’n cael eu cynnwys ym mhob contract meddiannaeth mewn ffordd ôl-weithredol, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet pam mae hyn yn angenrheidiol, a pha asesiadau effaith a gynhaliwyd.[94] Yn ei hymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *“Os na fyddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ôl-weithredol, gallai rhai tenantiaid sydd â chontractau cyfnodol fod yn destun y telerau gwahaniaethol hyn am flynyddoedd lawer i ddod.*
>
> *Rwy'n fodlon bod unrhyw anfantais bosibl i forgeisi a landlordiaid o wneud darpariaeth gydag effaith ôl-weithredol yn llawer llai na'r budd i denantiaid sydd neu a allai fod ar fudd-daliadau neu sydd neu a allai fod â phlant, ynghyd â'r buddion i gymdeithas o gael personau o'r fath i gael llety priodol yn rhwydd a pheidio â gorfod dibynnu ar awdurdodau lleol am gymorth digartrefedd.*
>
> *Mae rhai mesurau diogelu wedi'u hymgorffori yn y darpariaethau e.e. mewn perthynas â'r telerau presennol mewn contractau meddiannaeth - mae darpar landlordiaid a/neu bartïon cysylltiedig wedi'u heithrio rhag y*

---

[92] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, cwestiwn 11
[93] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ateb i gwestiwn 11
[94] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, cwestiwn 12

> *gwaharddiadau os ydynt yn cyrchu am nod cyfreithlon neu os oes cymal cyfyngol mewn contract yswiriant presennol sy'n gwahardd plant neu bersonau sy'n derbyn budd-daliadau. Er na fydd telerau contractau meddiannaeth, prydlesi a morgeisi sy'n mynd yn groes i'r gwaharddiad cyffredinol yn cael unrhyw effaith, bydd y contract meddiannaeth, y les neu'r morgais yn parhau cyn belled ag sy'n ymarferol i gael effaith ym mhob ffordd arall."*[95]

## Hygyrchedd cyfraith Cymru

**72.** Ym mis Mawrth 2024, cydnabu y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James AS, nad oedd defnyddio'r Bil Rhentwyr (Diwygio) i ddeddfu ar faterion diwygio deddfwriaeth rhentwyr i Gymru yn cyfrannu at hygyrchedd cyfraith Cymru. Gwnaethom nodi'r gydnabyddiaeth hon yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).[96]

**73.** Gwnaethom godi'r mater hwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet a gofyn a yw defnyddio Bil Llywodraeth y DU ar gyfer hawliau rhentwyr yn cwestiynu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Wrth ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"No, I don't think it does, but I do think that, perhaps, on this wider process, and I'm sorry to repeat myself in the fact that I do know that, next week, you have the Counsel General here who will be able to perhaps discuss further the wider issues around the constitutional and legislative programme, which I think would be helpful to the committee."*[97]

**74.** Yn ystod ein trafodaethau gydag Ysgrifennydd y Cabinet, gwnaethom godi ein pryderon bod deddfwriaeth tai sy'n gymwys yng Nghymru yn dod yn fwy cymhleth a dryslyd gan fod cyfraith yn cael ei phasio yn San Steffan yn ogystal ag yn y Senedd.[98] Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet y gallai defnyddio Biliau

---

[95] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ateb i gwestiwn 12
[96] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), Mai 2024, paragraffau 38 a 69
[97] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [47]
[98] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [85]

cydgrynhoi ddatrys y mater hwn[99], pwynt a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Dirprwy Brif Weinidog yn ein sesiwn dystiolaeth ar 9 Rhagfyr 2024 (gweler paragraffau 39 a 40 uchod).

**75.** Dywedodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"You'll be aware of the Welsh Government's commitment to improving accessibility of Welsh law, and we've got a commitment, a formal programme of work, to try and achieve that. But as the Cabinet Secretary said, it's not a small task in terms of trying to do that."*[100]

**76.** Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

> *"Just to come back on that point in terms of that accessibility and that wider consolidation work, just to be clear again, on this particular LCM, this is amending a piece of Welsh legislation, so it will be within the Welsh statute book, so the law will be accessible in terms of it will be within the renting homes Act."*[101]

## Cymalau penodol yn y Bil

### Cymal 46 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddiogelu eraill

**77.** Mae cymal 46 yn y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i ychwanegu grwpiau o bobl a ddiogelir rhag gwahaniaethu wrth rentu. Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet sut y mae'n rhagweld y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pŵer hwn, ac a yw unrhyw grwpiau penodol yn debygol o gael eu hychwanegu at y categori hwn.[102]

**78.** Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"With reference to clause 46, this is a power that allows Welsh Ministers to make regulations to extend the provisions around*

---

[99] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [86]
[100] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [87]
[101] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [89]
[102] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [92]

*discriminatory rental practice in respect of dwellings to other cohorts of people, in the way Part 1, chapter 4 protects benefit recipients and those with children, should the need arise. Before making that regulation, Welsh Ministers must be satisfied that discriminatory rental practice exists, and that that cohort, because of that practice, is significantly less likely to obtain, be granted renewal or continue with an occupation contract than other people. That's a bit technical, but clause 46 requires the regulations to be made under the affirmative procedure and places that requirement on Welsh Ministers to consult before making those regulations. So, making regulations is contingent on prior consultation with relevant stakeholders. At this time I can't speculate how and when that would be used, but it's a power that could be used should discriminatory practices exist in the rental sector, and obviously it would allow Welsh Ministers to do that. So the power would facilitate future extensions to additional cohorts if needed, as you've suggested in your question."*[103]

**79.** Gwnaethom ofyn am ragor o wybodaeth ac eglurder gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch sut y bydd y pŵer dirprwyedig yn cael ei ddefnyddio a pham y mae’n cael ei gymryd.[104] Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“Mae'n bŵer y gellid ei ddefnyddio os bydd arferion gwahaniaethol yn parhau yn y sector rhentu. Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n estyn darpariaethau gwahaniaethu ar sail rhent i grwpiau ychwanegol yng Nghymru yn y dyfodol, os oes angen.*

*Mae cymal 46 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau gael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol ac mae'n gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau. Felly, mae gwneud rheoliadau yn ddibynnol ar*

[103] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [93]
[104] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, cwestiwn 6

> *ymgynghori ymlaen llaw â rhanddeiliaid perthnasol, a chytundeb y Senedd."*[105]

**Cymal 47 – Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiogelu eraill**

**80.** Mae cymal 47 yn rhoi'r un pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol â Gweinidogion Cymru yng nghymal 46, ond dim ond mewn achosion lle byddai darpariaeth yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ac yn disgyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[106]

**81.** Mewn perthynas â chymal 47, gwnaethom nodi mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw nad oes angen cydsyniad ar gyfer pwerau gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol, gan na fyddent ond yn cael eu harfer pan nad oes gan Weinidogion Cymru gymhwysedd deddfwriaethol. Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet roi enghraifft o ba bryd y byddai angen y pŵer hwn mewn maes a gadwyd yn ôl, o ystyried mai dim ond i gyfraith tai y mae'r pwnc yn gymwys, a bod y maes hwnnw wedi'i ddatganoli.[107]

**82.** Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"An example of this might be if a provision were to relate to, for example, the financial services reservation. This power allows the Secretary of State to make regulations extending rental discrimination provisions to additional groups in Wales where provision would fall outside the legislative competence of the Senedd, should that be necessary in the future."*[108]

**83.** Gwnaethom ofyn am esboniad pellach ynghylch pam mae cymal 47 wedi'i gynnwys, pwy ofynnodd am ei gynnwys yn y Bil, ym mha amgylchiadau y gellid ei ddefnyddio, a'r amseru tebygol o ran ei ddefnydd.[109] Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Mae cymal 47 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud o dan*

---

[105] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ymateb i gwestiwn 6
[106] Nodiadau Esboniadol i'r Bil Hawliau Rhentwyr, fel y'i cyflwynwyd, paragraff 312
[107] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [94]
[108] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [95]
[109] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, cwestiwn 7

*gymal 46, ond am y cyfyngiad yng nghymal 48. Y cyfyngiad hwnnw yw y caiff rheoliadau o dan adran 46 ond gwneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a gynhwysir mewn Deddf gan y Senedd.*

*Felly, y pŵer hwn yw'r un pŵer a roddir i Weinidogion Cymru gan Gymal 46, ond hynny dim ond mewn achosion pan fyddai'r ddarpariaeth yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ac sydd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Enghraifft o hyn fyddai darpariaeth sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ariannol, er enghraifft.*

*Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n estyn darpariaethau gwahaniaethu ar sail rhent i grwpiau ychwanegol yng Nghymru, lle byddai'r ddarpariaeth y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, pe bai angen gwneud hynny yn y dyfodol.*

*Unwaith eto, nid wyf am ddyfalu o dan ba amgylchiadau y câi'r pŵer hwn ei ddefnyddio, ac felly ni allaf ddyfalu beth fyddai amseriad rhywbeth sydd wedi'i nodi neu sydd heb ei nodi, ond mae'r pŵer yno os oes ei angen hynny yn y dyfodol.”*[110]

**84.** Gwnaethom hefyd nodi nad yw cymal 47 wedi'i restru yn y Memorandwm fel un sy’n gofyn am gydsyniad. Wrth wneud hynny, gwnaethom hefyd nodi, er bod y pŵer ond yn berthnasol lle byddai’r ddarpariaeth yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ac yn disgyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, y byddai unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 47 (gan gynnwys yn y cyfeiriad at yr esiampl o’r gwasanaethau ariannol a roddwyd i’r Pwyllgor) yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddiben mewn cyfraith tai drwy estyn darpariaethau gwahaniaethu ar sail rhent i grwpiau ychwanegol yng Nghymru, sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, gwnaethom ofyn am enghraifft bellach o ble fyddai angen rheoliadau mewn cysylltiad â darpariaethau tai a fyddai heb eu datganoli.[111] Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“Fel y nodwyd uchod, mae gan Weinidogion Cymru bŵer yng Nghymal 46 i estyn, drwy reoliadau, yr amddiffyniadau rhag*

---

[110] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ateb i gwestiwn 7
[111] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Tachwedd 2024, cwestiwn 8

*gwahaniaethu a roddir i rentwyr â phlant neu sy'n derbyn budd-daliadau, i garfannau ychwanegol. Daw'r pŵer hwn o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd bŵer i wneud rheoliadau o'r fath ond dim ond lle byddai'r ddarpariaeth yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ac yn disgyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Un enghraifft, a nodwyd i'r Pwyllgor, fyddai pan fyddai'r ddarpariaeth a wneir yn ymwneud â mater y gwasanaethau ariannol a gadwyd yn ôl a byddai'r un peth yn wir mewn perthynas â mater arall a gadwyd yn ôl. Fodd bynnag, ym mhob achos, er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth mewn rheoliadau, byddai angen iddo fod y tu hwnt i gwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."*[112]

**85.** Pan wnaethom ofyn pa ofynion ymgynghori fyddai'n gymwys i reoliadau sy'n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

*"The Secretary of State would be required to consult with a wide range of people in the rental sector in Wales, including landlords, mortgagees, insurers, and tenants, obviously, as well."*[113]

[112] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 16 Rhagfyr 2024, ymateb i gwestiwn 8
[113] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024 [97]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**86.** Gwnaethom ystyried ein hadroddiad ar 6 Ionawr 2025 a chytuno arno yn ein cyfarfod ar 27 Ionawr 2025.[114]

## Ein barn ni

**87.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil, y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm.

**88.** Nodwn hefyd safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Yn amodol ar argymhelliad 3, rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**89.** Nodwn o'r Memorandwm fod gwahaniaethau barn o hyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y darpariaethau yn y Bil Hawliau Rhentwyr nad oes cytundeb o hyd ynghylch a oes angen cydsyniad ar eu cyfer;
- esbonio'r goblygiadau pe na cheir cytundeb ar y darpariaethau hynny.

**90.** Nodwn fod y darpariaethau yn y Bil Hawliau Rhentwyr sydd o fewn maes polisi datganoledig tai fwy neu lai yr un fath â'r rhai a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) a fethodd pan ddiddymwyd Senedd y DU ym mis Mai 2024.

**91.** Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rhentwyr (Diwygio)[115], daethom i 6 chasgliad, gan gynnwys y canlynol:

> *"Casgliad 2. Pryderwn fod Llywodraeth Cymru yn tanseilio'r Senedd fel deddfwrfa a'r egwyddor o ddatganoli drwy geisio*

---

[114] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 27 Ionawr 2025
[115] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), Mai 2024

*cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) i gyflawni ei hamcanion polisi ar rentu cartrefi, yn hytrach na chynnig ei Bil ar wahân ei hun, y byddai modd i'r Senedd graffu arno.*

*Casgliad 3. Nid yw dadleuon yr Ysgrifennydd Cabinet o blaid ddefnyddio Bil y DU i ddeddfu ar gyfer Cymru ym maes rhentu cartrefi wedi ein hargyhoeddi."*

**92.** Gwnaethom hefyd nodi'r canlynol:

*"Nid yw'n briodol i'r weithrediaeth yn unig benderfynu beth sy'n fanteisiol neu o fudd i ddinasyddion Cymru, nac i ddyfalu lefel y consensws a chefnogaeth ymhlith Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid ynghylch manylion y ddeddfwriaeth heb fod ganddynt dystiolaeth ddigonol. Mewn democratiaeth seneddol, credwn y dylai fod modd i'r ddeddfwrfa brofi a herio safbwyntiau'r weithrediaeth, er enghraifft mewn perthynas â'r pwyntiau a ganlyn:*

- *a yw geiriad deddfwriaeth yn cyflawni bwriad polisi'r weithrediaeth yn briodol;*
- *a yw'r ddeddfwriaeth yn arwain at unrhyw ganlyniadau polisi anfwriadol;*
- *a ellid gwella polisi a geiriad y ddeddfwriaeth;*
- *a yw'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn gyson;*
- *sut, yn yr achos hwn, y mae'r darpariaethau deddfwriaethol newydd yn cydweithio ac yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth rhentu cartrefi a gyflwynwyd eisoes gan y Senedd.*

*Nid yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn rhoi'r amser na'r modd i'r Senedd ymgymryd â'r rôl honno mor effeithiol ag y gallai pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei Bil ei hun."*[116]

[116] Adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), paragraffau 77 a 78

**93.** Mae’r casgliadau a'r testun rydym yn tynnu sylw atynt ym mharagraffau 91 a 92 yr un mor berthnasol i'r defnydd o'r broses cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Hawliau Rhentwyr ag oeddent ar gyfer y Bil Rhentwyr (Diwygio). Fel y nodwn isod, mae materion eraill a godwn yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rhentwyr (Diwygio) hefyd yn wir ar gyfer ein hystyriaeth o’r Memorandwm.

**Casgliad 2.** Mae’r adran “Ein barn ni” o’n hadroddiad ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) yn cynnwys sylwebaeth sydd yr un mor berthnasol i’r defnydd o Fil Hawliau Rhentwyr Llywodraeth y DU i ddeddfu ym maes polisi datganoledig tai, ac rydym yn tynnu sylw’r Senedd ato.

**94.** Mae nifer o faterion rydym yn dymuno tynnu sylw atynt yng ngoleuni cynnwys y Memorandwm a’r dystiolaeth a glywsom gan Ysgrifennydd y Cabinet, y Cwnsler Cyffredinol a’r Dirprwy Brif Weinidog.

**95.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cadarnhau bod Bil Llywodraeth Cymru yn cymryd rhwng chwech ac wyth mis i gwblhau ei daith ddeddfwriaethol drwy’r Senedd. O’r herwydd, pe bai Bil Llywodraeth Cymru ar hawliau rhentwyr wedi’i gyflwyno ym mis Tachwedd 2023 (y dyddiad y cafodd y darpariaethau eu cynnwys ym Mil Llywodraeth y DU drwy welliant[117]), mae’n debygol y byddai wedi cwblhau ei daith yn ystod hydref 2024. O dan amgylchiadau o’r fath, byddai Bil Llywodraeth Cymru wedi dod yn gyfraith *cyn* i Fil Hawliau Rhentwyr Llywodraeth y DU gwblhau ei daith drwy ddau Dŷ deddfu yn Senedd y DU.

**96.** Yn unol â hynny, gallai dinasyddion Cymru fod wedi teimlo manteision y darpariaethau deddfwriaethol yn gynt pe bai Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Bil i’r Senedd o fewn yr amserlenni uchod. At hynny, gallai pwyllgorau’r Senedd fod wedi ymgynghori ar y darpariaethau deddfwriaethol a gallent fod wedi bod yn destun mwy o ddadlau a chraffu, gyda’r bwriad o sicrhau canlyniadau gwell.

**97.** Rydym felly’n anghytuno â barn Ysgrifennydd y Cabinet mai defnyddio Bil Llywodraeth y DU yw’r cyfrwng deddfwriaethol cyflymaf i wneud darpariaeth yng Nghymru.

**98.** Rydym hefyd o’r farn, felly, bod paragraff 34 o’r Memorandwm, a osodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, yn gamarweiniol pan mae’n nodi:

[117] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Rhentwyr (Diwygio), 30 Ionawr 2024, paragraff 10

> *"… byddai ceisio cymhwyso'r darpariaethau gwahaniaethu i Gymru mewn Bil gan Senedd y DU yn fy ngalluogi i gyflawni nod polisi arwahanol yn brydlon, o fewn amserlen llawer byrrach nag a fyddai'n bosibl fel arall pe baem yn ceisio cyflawni'r un nod drwy ddeddfwriaeth yn y Senedd."*

**99.** Wrth wneud y datganiadau hyn, nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi darparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi ei hawgrym nad oes gan y Senedd y capasiti i graffu ar Fil Llywodraeth Cymru ar hawliau rhentwyr. I'r gwrthwyneb, mae'r Senedd wedi craffu ar fwy o Filiau (a Mesurau arfaethedig) ym mhob Cynulliad a Senedd cyn y Chweched Senedd nag y mae wedi'i wneud yn y Chweched Senedd hyd yma.[118]

**100.** Yn ogystal, hyd y gwyddom, nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud unrhyw ymdrech i ychwanegu Bil ar hawliau rhentwyr at raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, er bod darpariaethau dwyieithog wedi'u drafftio eisoes. Mae'n ymddangos bod rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn anhyblyg, heb unrhyw hyblygrwydd ynddi i ymateb yn ystwyth pan fydd unrhyw faterion newydd yn codi sy'n gofyn am ddeddfwriaeth y tu hwnt i'w rhaglen arfaethedig.

**101.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd na allent gyflawni o fewn amserlen y Bil hwn heb aberthu yn rhywle arall, a chyfeiriodd at orfod aros am slot amser deddfwriaethol, sef cyfeiriad at slot o fewn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn ôl pob golwg.

**102.** Mae'n ymddangos felly mai materion capasiti o fewn Llywodraeth Cymru sydd wedi arwain at ddefnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu i Gymru ar faterion tai.

**103.** Fel y cyfryw, rydym yn synnu i glywed Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud (mewn ymateb i gwestiwn 1 yn ein llythyr dyddiedig 27 Tachwedd 2024), o ran defnyddio Bil Llywodraeth y DU: "Nid adnoddau oedd y broblem, ond y potensial o effeithio ar y blaenoriaethau deddfwriaethol presennol."

**104.** Yn ein barn ni, mae'r ymateb i gwestiwn 1 yn cynnwys gwrth-ddweud gan mai Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r ddeddfwriaeth y mae'n ei chyflwyno i'r Senedd ac felly'r blaenoriaethau deddfwriaethol y cyfeirir atynt, a'r adnoddau sydd eu hangen i'w rhoi ar waith.

---

[118] Yn seiliedig ar ddadansoddiad y tudalennau gwe deddfwriaethol ar gyfer y Chweched Senedd ac ar gyfer y Cynulliadau/Seneddau blaenorol

**105.** At hynny, mae'n ymddangos bod yr ymateb i gwestiwn 1 yn gwrth-ddweud y dystiolaeth gynharach gan Ysgrifennydd y Cabinet (gweler paragraffau 37 a 55), y dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol (gweler paragraffau 33 i 34), a'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn cysylltiad â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).[119]

**106.** Mae'r dystiolaeth amrywiol ac weithiau anghyson nad yw'n darparu unrhyw sail resymegol glir dros ddefnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu ym maes polisi datganoledig tai yn ein gwneud yn bryderus felly mai materion capasiti sydd wrth wraidd y ffaith bod Gweinidogion Cymru'n mabwysiadu dulliau o'r fath. Mae hynny'n annerbyniol ac yn peri gofid.

**Casgliad 3.** Rydym yn anghytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet mai defnyddio Bil Llywodraeth y DU yn Senedd y DU i ddeddfu ym maes polisi datganoledig tai oedd y ffordd gyflymaf i ddeddfu mewn perthynas â hawliau rhentwyr.

**Casgliad 4.** Yn ein barn ni, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd i ni, mae problemau capasiti o fewn Llywodraeth Cymru wedi arwain at ddefnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu ym maes polisi datganoledig tai, ac nid yw honiad Ysgrifennydd y Cabinet nad yw adnoddau'n broblem yn gredadwy.

**107.** Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), gwnaethom nodi barn Llywodraeth Cymru bod defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu ar ddiwygio hawliau rhentwyr yn gyson â'r egwyddorion ar gyfer deddfu mewn meysydd datganoledig.[120]

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio sut y mae defnyddio'r Bil Hawliau Rhentwyr i ddeddfu ym maes datganoledig tai yn gyson â'r egwyddorion gwreiddiol ar gyfer defnyddio Biliau Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig.

**108.** Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)[121], drwy beidio â defnyddio Bil Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd i'r Senedd i gyflawni diwygiadau i hawliau

---

[119] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), Mai 2024, gweler paragraffau 24, 26, 42, 43 a'r adran Ein barn ni
[120] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), paragraff 61
[121] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), paragraff 80

rhentwyr yng Nghymru, nid oes angen cydymffurfio â Rheol Sefydlog 26.6 sydd, yn ei dro, yn golygu nad yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei hasesiadau o effaith ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae asesiadau o'r fath yn gorfod cael eu llywio gan ddadansoddiad a datblygiad polisi.

**109.** Nodwn hefyd gyfaddefiad Ysgrifennydd y Cabinet nad oes unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal gan Lywodraeth Cymru ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym Mil Llywodraeth y DU. Mae hyn yn peri pryder arbennig o ystyried bod troseddau newydd yn cael eu creu. Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet am friffio rhanddeiliaid a chael ymgysylltiad anffurfiol a gofyn am adborth; rydym o'r farn bod y broses hon yn anfoddhaol o ran deddfu gan ei bod gryn dipyn yn wannach nag ymgynghoriad ffurfiol, gyda phroses ad-hoc yn ôl pob golwg heb unrhyw ganlyniadau wedi'u dogfennu.

**110.** Fel y nodwyd uchod, mae Bil Llywodraeth y DU yn diwygio dwy Ddeddf tai a basiwyd gan y Senedd: *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* a *Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019*. Ochr yn ochr â phob un o'r Biliau dan sylw, cyflwynwyd memorandwm esboniadol, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6, yn rhoi sylwebaeth fanwl ar y darpariaethau ym mhob Bil, gwybodaeth am ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac amrywiaeth o asesiadau effaith, gan gynnwys rhai ariannol.[122] Yn ogystal, roedd Deddf arall y Senedd, *Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021*, yn diwygio Deddf 2016 a chyflwynwyd memorandwm esboniadol i gyd-fynd â'r Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru at y diben hwnnw.[123]

**111.** Er mwyn cymharu, roedd y memorandwm esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) Cymru pan gafodd ei gyflwyno yn darparu 102 o dudalennau o wybodaeth i gynorthwyo'r Senedd gyda'i waith craffu, o gymharu â'r Memorandwm sy'n destun yr adroddiad hwn, sy'n cynnwys dim ond saith tudalen o wybodaeth.

**112.** At hynny, mae 38 o'r 102 o dudalennau o'r memorandwm esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) Cymru yn ymwneud â goblygiadau ariannol, gan gynnwys dadansoddiad o gostau a manteision.

---

[122] Llywodraeth Cymru, Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) - Memorandwm Esboniadol gan ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Chwefror 2015 a Llywodraeth Cymru, Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Mehefin 2018

[123] Llywodraeth Cymru, Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru), Memorandwm Esboniadol gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Chwefror 2020

**113.** O ran goblygiadau ariannol darpariaethau ym Mil Llywodraeth y DU sy'n diwygio Deddfau 2016 a 2019, mae'r Memorandwm wedi'i gyfyngu i ddatgan: "Ni nodwyd unrhyw oblygiadau ariannol hyd yma pe bai'r darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru."

**114.** Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), gwnaethom nodi nad oedd unrhyw wybodaeth na dadansoddiad i gefnogi'r honiad yn y memorandwm hwnnw nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol yn codi.[124] Daethom i'r casgliad a ganlyn:

> *"**Casgliad 5**. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth ategol, rydym yn amheus o farn yr Ysgrifennydd Cabinet nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o ddarpariaethau perthnasol y Bil, fel y nodir yn y Memorandwm."*

**115.** Gwnaethom hefyd argymell:

> *"**Argymhelliad 7**. Ar gyfer y darpariaethau a nodir yn y Memorandwm, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet osod gerbron y Senedd yr un fath o asesiad effaith rheoleiddiol a fyddai wedi cael ei ddarparu pe bai'r darpariaethau wedi'u cynnwys mewn Bil ar wahân a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru."*

**116.** Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth leol, Tai a Chynllunio ar y pryd, Julie James AS:

> *"Roedd angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ategol ar gyfer y diwygiadau gafodd eu gwneud yn y Cyfnod Adrodd. Ond gwnaeth y Bil fethu cyn cyrraedd ei gamau olaf yn Senedd y DU yn ystod yr 'olchfa' cyn cyhoeddi'r etholiad cyffredinol a dileu'r Senedd wedi hynny."*[125]

**117.** Mae'n ymddangos nad yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried argymhelliad 7 ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), cyn gosod y Memorandwm.

---

[124] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), Mai 2024, paragraff 79
[125] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio, Julie James AS, 21 Mehefin 2024, ymateb i Argymhelliad 7

**118.** At hynny, er mwyn datgan nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o Fil Llywodraeth y DU, mae'n ein taro ni bod angen cynnal asesiad er mwyn dod i'r casgliad hwnnw.

**119.** Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyfeirio at y ddarpariaeth bresennol yn Neddf 2016 pan wnaethom ofyn am gostau posibl i landlordiaid sy'n deillio o ddarpariaethau ym Mil Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn wir nad ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth i gefnogi honiad Ysgrifennydd y Cabinet nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i landlordiaid yn deillio o'r newidiadau arfaethedig.

**120.** Yn ogystal â'r ffaith ei bod yn destun gofid nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi, mae hefyd yn tynnu sylw at bwynt pwysig: nid yw'n glir i ni o hyd a yw darpariaethau Bil Llywodraeth y DU wedi bod yn destun unrhyw fath o waith datblygu neu ddadansoddi polisi trylwyr gan Lywodraeth Cymru.

**121.** Nodwn hefyd bod dau achos o wrth-ddweud arwyddocaol yn y dystiolaeth a ddarparwyd, ac mae'r rhain yn peri cryn bryder.

**122.** Yn gyntaf, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod gan Lywodraeth Cymru broblemau difrifol gyda'r Bil Rhentwyr (Diwygio), ond roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwnnw yn argymell bod "y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad", ac nid ydym yn ymwybodol bod pryderon wedi'u codi'n flaenorol. Yn bwysicach fyth, pe bai pryderon, ni fyddai pryderon o'r fath wedi codi pe bai Llywodraeth Cymru wedi deddfu ei hun yn y Senedd; ni fyddai unrhyw anghytundebau â Llywodraeth y DU ar bolisi yn berthnasol i Fil Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r bil rhentwyr sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac sy'n ceisio diwygio Deddfau presennol a basiwyd gan y Senedd ar bolisi rhentu cartrefi.

**123.** Yn ail, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym hefyd nad oedd deddfwriaeth ar ddiwygio'r bil rhentwyr yn rhan o blatfform polisi Llywodraeth Cymru adeg cyflwyno'r Bil Rhentwyr (Diwygio) yn Senedd y DU; nad oedd unrhyw randdeiliaid wedi codi'r mater yng Nghymru ac nad eu syniad da nhw oedd hwn. Fodd bynnag, wrth roi tystiolaeth i ni fel y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rhentwyr (Diwygio), dywedodd wrthym fod darpariaethau yn y Bil yn cynrychioli nod polisi hynod bwysig a'i fod yn gyfle i roi ar waith yn gyflym bolisi yr oeddent wedi bod eisiau ei

wneud ers tro byd.[126] Ar ben hynny, yn ei thystiolaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Bil Llywodraeth y DU yn rhywbeth yr oeddent wir eisiau ei wneud ac eisiau ei gyflawni ar ôl iddynt wneud gwaith ehangach ar hynny.

**124.** Rydym yn pryderu felly nad yw'r darpariaethau ar gyfer Cymru ond yn efelychu'r darpariaethau a ddyluniwyd yn wreiddiol ar gyfer Lloegr gyda rhai addasiadau er bod gwahaniaeth sylweddol yn y dull gorfodi rhwng Cymru a Lloegr.

**Casgliad 5.** Yn ogystal â'n pryderon ynghylch defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig, rydym yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal na llunio asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y darpariaethau yn y Memorandwm, fel yr awgrymwyd gennym yn ein hadroddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).

**Casgliad 6.** Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth ategol, rydym yn dal i fod yn amheus o farn Ysgrifennydd y Cabinet nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o ddarpariaethau perthnasol yn y Bil fel y'u nodir yn y Memorandwm.

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu asesiad effaith rheoleiddiol gan gynnwys ei asesiad effaith ariannol i'r Pwyllgorau sy'n craffu ar y Memorandwm.

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro pam nad oes unrhyw gostau i landlordiaid sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil.

**125.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod cael cyfraith Gymreig hygyrch yn hanfodol i ddemocratiaeth weithredol. Drwy ei waith craffu, mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrhau bod y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn hygyrch i bawb, yn hytrach na dim ond rhai. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i hygyrchedd a fesurir yn ôl a yw Deddfau neu is-ddeddfwriaeth yn cael eu cyhoeddi ar wefannau, ond yn hytrach i a yw'r Pwyllgor o'r farn y byddai rhywun yng Nghymru'n gwybod ble i edrych i geisio dod o hyd i, er enghraifft, y gyfraith tai sy'n gymwys yng Nghymru.

**126.** Rydym o'r farn y bydd dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio'r Bil Hawliau Rhentwyr i ddeddfu ar faterion tai ar gyfer Cymru yn drysu'r llyfr statud fel y mae'n gymwys yng Nghymru.

---

[126] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), Mai 2024, paragraffau 27, 38, 64 a 69

**127.** Fel y gwnaethom nodi yn y sesiwn dystiolaeth,[127] mae hygyrchedd i gyfraith hefyd yn golygu deall sut y penderfynwyd ar y gyfraith a'r sail resymegol dros ei datblygu. Gydag ychydig iawn o graffu ar ddarpariaethau Cymru yn y Bil yn San Steffan, nid yw'r ddadl seiliedig ar wybodaeth hon wedi digwydd, ond digwyddodd gyda'r Biliau a arweiniodd at *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*, *Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019* a *Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021*.

**128.** Rydym hefyd yn nodi'r cyfeiriadau at yr posibilrwydd y gallai Biliau cydgrynhoi fod yn briodol yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni chaniateir i Filiau cydgrynhoi ddiwygio'r gyfraith. Er ei bod yn well creu cyfraith hygyrch er budd rhanddeiliaid yn y lle cyntaf, gwelwn y dadleuon a gyflwynwyd o blaid Biliau cydgrynhoi fel ymgais fanteisgar a gwan i gyfiawnhau defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig. Wrth ddod i'r farn hon, rydym yn ymwybodol, o ystyried yr adnoddau dan sylw, yr amser y mae'n ei gymryd i baratoi Bil cydgrynhoi a'r heriau y mae Llywodraeth Cymru'n dweud ei bod yn eu hwynebu yn ei rhaglen ddeddfwriaethol, nid ydym yn teimlo bod Bil cydgrynhoi ar gyfraith tai yn opsiwn ymarferol yn y tymor byr.

**Casgliad 7.** Bydd defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu ar bolisi rhentu cartrefi yn lleihau hygyrchedd cyfraith Cymru o ystyried bod y Senedd wedi pasio tair Deddf ers 2016 yn y maes pwnc hwn.

**129.** Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ar gymalau 46 a 47.

**130.** Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud na all ddyfalu o dan ba amgylchiadau y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan gymal 47. O ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, rydym yn synnu nad yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi gallu cyflwyno rhagor o wybodaeth.

**Argymhelliad 5.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i ganfod o dan ba amgylchiadau y mae'r pwerau o dan gymal 47 yn debygol o gael eu harfer ac i ddarparu'r wybodaeth honno i'r Pwyllgor.

**131.** Fel y nodwyd uchod, rydym yn parhau i fod yn aneglur sut na fyddai rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 47 i ychwanegu grŵp i'w ddiogelu rhag gwahaniaethu ar sail rhent yn ystyried mater

[127] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [90]

datganoledig. Byddai'r prawf o dan Reol Sefydlog 29 yn cael ei fodloni oherwydd byddai unrhyw reoliadau o'r fath yn rhoi sylw i fater datganoledig cyfraith tai. Mae'r prawf o dan Reol Sefydlog 29 wrth gwrs yn ehangach na chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 47 o'r Bil Hawliau Rhentwyr.

**132.** Fel y bydd yn amlwg o'r adroddiad hwn a'n hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), rydym yn bryderus ac yn siomedig ynghylch y ffordd mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i ddeddfu ar hawliau rhentwyr. Yn ein barn ni, mae'n cynrychioli ymyrraeth ddigroeso ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nid yw'n cyd-fynd â bwriad Confensiwn Sewel, a gwnaethom bwysleisio'r farn hon yn ddiweddar yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24.[128]

**133.** Rydym yn dal i fod yn rhwystredig bod deddfwriaeth ar dai a basiwyd gan y Senedd yn dilyn ymgynghori a chraffu manwl bellach yn cael ei diwygio gan ddefnyddio deddfwriaeth a ystyriwyd yn San Steffan a heb fawr ddim mewnbwn gan Aelodau o'r Senedd.

**134.** Mae'r Senedd yn wynebu fait accompli: pleidleisio ie neu fod mewn perygl o golli deddfwriaeth a allai fod yn bwysig ar dai, er gwaethaf y ffaith nad yw, yn ein barn ni, wedi bod yn destun y gwaith datblygu polisi trwyadl y byddem yn ei ddisgwyl ar gyfer cyfraith newydd, craffu manwl gan Aelodau o'r Senedd sydd â gwybodaeth am faterion tai Cymru, nac ymgynghoriad â rhanddeiliaid (gan gynnwys drwy ymgysylltu â phwyllgorau'r Senedd).

**135.** Rydym yn ailadrodd ein barn nad yw'r craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn gyfystyr ar unrhyw gyfrif â chraffu ar Fil Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ystyried bod Aelodau etholedig o'r Senedd yn cael llai o gyfle i brofi, herio ac felly dylanwadu ar gyfraith a wneir mewn maes polisi datganoledig.

**136.** Yn ein barn ni, roedd y penderfyniad i fynd ar drywydd cynnwys darpariaethau ym Mil Llywodraeth y DU ar sail hwylustod yn gam gwag ac yn annoeth. Nid yn unig i Fil rhentwyr (diwygio) cyntaf Llywodraeth y DU fethu oherwydd etholiad cyffredinol y DU, ond bellach mae awgrymiadau (er eu bod yn gwrth-ddweud ei gilydd) fod Llywodraeth Cymru yn ymgodymu â materion

[128] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, Tachwedd 2024, paragraff 112

amrywiol yn y Bil hwnnw. Mae hyn yn amlygu'n llwyr sut y gellir colli rheolaeth a grym llywodraethu dros y broses ddeddfwriaethol yn sgil defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig.

**137.** Yn ei thystiolaeth, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod yn siom na chafodd y Senedd gyfle i graffu ar Fil Llywodraeth Cymru ar bwnc hawliau rhentwyr. Mae diystyru'r Senedd fel deddfwrfa mewn modd mor amlwg yn tynnu sylw at yr hyn sy'n ymddangos i ni yn gamsyniad cynyddol o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch sut y dylai ymgysylltu â'r Senedd ac, yn unol â hynny, ei hatebolrwydd i'r Senedd.

**138.** Er ein bod yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru hawl i nodi'r hyn y mae'n credu sydd er lles gorau Cymru, rydym yn dymuno tynnu sylw at bwynt cysylltiedig. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol awgrymu nad oes angen i'r Senedd chwarae rhan wrth helpu i lunio deddfwriaeth sy'n effeithio ar etholwyr Aelodau o'r Senedd dim ond oherwydd bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod ei chynigion, sydd wedi'u cynnwys mewn Bil gan Lywodraeth y DU, er budd gorau Cymru, ac os na chaiff ei ddilyn, gallai dinasyddion Cymru fod ar eu colled o ran newidiadau a allai fod yn bwysig. Byddai defnyddio Bil Llywodraeth Cymru ar ddiwygio / hawliau rhentwyr wedi lleddfu'r pryder hwn ac wedi rhoi mwy o reolaeth i Lywodraeth Cymru dros ei chynigion deddfwriaethol ac yn y pen draw, cyflawni ac amseru'r newidiadau yr hoffai eu gweld. At hynny, gallai gwaith craffu manwl yn y Senedd yn ystod Cyfnodau 1 a 3 o'r broses ddeddfwriaethol fod wedi arwain at ddeddfwriaeth well, fwy gwybodus. Wrth wneud y pwyntiau hyn, rydym yn tynnu sylw at y sylwadau yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24, sy'n debyg i'r rhai a nodwn uchod:

> *"Ni ddylai Llywodraeth Cymru gymryd yn ganiataol mai dim ond ei safbwyntiau hi sy'n berthnasol wrth benderfynu beth sydd er budd gorau dinasyddion Cymru neu y dylai'r Senedd dderbyn ei barn a'i datrysiadau yn ddigwestiwn, heb eu herio."*[129]

**139.** I gloi, deuwn i'r casgliadau terfynol a ganlyn.

**Casgliad 8.** Rydym wedi ein siomi gan ansawdd gwael y dystiolaeth a'r wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

[129] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, Tachwedd 2024, paragraff 104

**Casgliad 9.** Mae defnyddio Bil Llywodraeth y DU wedi golygu bod Llywodraeth Cymru wedi osgoi'r angen i baratoi asesiadau effaith perthnasol a fyddai'n cyd-fynd â Bil a gyflwynir i'r Senedd.

**Casgliad 10.** Credwn fod defnyddio Bil y DU i ddeddfu ym maes datganoledig tai wedi dod yn fater o gyfleustra i Lywodraeth Cymru, yn gysylltiedig â chapasiti a phroblemau'n ymwneud ag adnoddau, yn enwedig o fewn yr adran sy'n gyfrifol am dai.

**Casgliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi gweithio tuag at gyflwyno Bil i'r Senedd a oedd yn defnyddio'r darpariaethau dwyieithog a oedd wedi'u cynnwys, fel gwelliannau, i Fil Rhentwyr (Diwygio) Llywodraeth y DU ar ôl iddo fethu adeg diddymu Senedd y DU.

**Casgliad 12.** Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gyfrifol am beidio â chyflwyno Bil i'r Senedd ar bwnc diwygio rhentwyr neu hawliau rhentwyr, o ganlyniad i benderfyniadau y mae wedi'u gwneud yn fewnol a materion sydd o fewn ei rheolaeth yn gyfan gwbl.

**Casgliad 13.** Mae dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio'r Bil Hawliau Rhentwyr i ddeddfu ar gyfer Cymru ym maes polisi tai, sy'n eithrio'r Senedd fel deddfwrfa a rhanddeiliaid yng Nghymru, yn cynrychioli agwedd anffodus ac annerbyniol at ddatganoli.